



Llun: Paneli haul ar yr Eglwys yn Uno yn Caloundra, Queensland, Awstralia
Llun o fferm wynt: [Christna](#)

Ymbiliau

at Amser y Cread 2012

*Paratowyd gan y Chwaer Catherine Brennan Chwiorydd Sant Louis
a'r Chwaer Ann Concannon Chwiorydd Sant Louis*

Set 1

Greawdwr Dduw, bendithiaist ni'n hael â chyflawnder o roddion yn dy fyd hwn. Cynorthwya ni i rannu yn yr haelioni hwnnw trwy fyw mewn modd a fydd yn sicrhau y pery dy roddion ar gael i genedlaethau'r dyfodol.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Dduw, llawenhawn ein bod ni, fodau dynol, wedi ein creu ar dy lun a'th ddelw. Cydnabyddwn hefyd na all dynolryw ei hun yn briodol dy adlewyrchu di. Rhaid wrth holl amrywiaeth y ddaear i roi hyd yn oed gipolwg ar dy ryfeddod a'th fawredd. Cynorthwya ni i fyw mewn modd cynaliadwy fel y perchir yr amrywiaeth ragorol hon.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Dduw, yr ydym yn byw mewn byd lle y mae rhai ohonom yn taflu bwyd ymaith tra bod eraill yn mynd i'r gwely'n newynog; lle y mae gan rai holl amwynderau modern bywyd wrth law tra bod eraill yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddŵr yfed. Bydded inni ddysgu rhannu â'n gilydd a thrwy hynny rannu yn dy haelioni di at bawb.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Dduw, dy roddion di at ffyniant bywyd pob cymuned ar y ddaear yw'r haul a'r gwynt a'r tonnau. Cynorthwya ni i'w defnyddio'n greadigol i gynhyrchu ynni cynaliadwy i bawb.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Trwy lafur gwyddonwyr, peirianwyr ac ysgolheigion daw gwybodaeth newydd i olau dydd; bydded i ffyrdd newydd o greu ynni cynaliadwy amddiffyn ein planed fregus a hyrwyddo ffyniant yr holl bobloedd a phob creadur ar eu taith at gyfanrwydd.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Gweddïwn dros y Cenedloedd Unedig, dros yr holl arweinwyr rhyngwladol a chenedlaethol a lleol a throos reolwyr cwmnïau, ar iddynt gael eu harwain gan dy Ysbryd i wneud penderfyniadau doeth ar ffynonellau ynni cynaliadwy i bawb.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Dduw, bendithiaist ddynolryw â deall, dychymyg a chof. Dangos inni sut i ddysgu oddi wrth gamgymeriadau'r gorffennol ac i gynllunio at y dyfodol yn greadigol a chyfrifol.
O Dduw, dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Offeiriad/arweinydd

Gweddïwn: Crea ynom galon newydd a gweledigaeth newydd, O Dduw, fel y gall doniau dy Ysbryd weithio o'n mewn ac adnewyddu wyneb y ddaear. Gwna ni'n un â thi fel y bydd ein gwaith dy waith di a'th waith di ein gwaith ninnau. Gofynnwn hyn yn enw Iesu, sy'n byw gyda thi a'r Ysbryd Glân am byth.
Amen



Set 2

Greawdwr Dduw, diolchwn am y ddaear ryfeddol hon yr ydym yn ei rhannu â chymuned popeth byw. Gweddïwn am ymwybyddiaeth na allwn gynnal ein dyhead presennol am elw diderfyn mewn planed â therfynau iddi. Cynorthwya ni i fyw mewn modd a fydd yn parchu pob bywyd a derbyn y bydd yn rhaid inni ostwng ein gofynion fel y gall ffurfiau eraill ar fywyd barhau a ffynnu.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Yn ein cyflwr drylliedig yr ydym yn tarfu ar allu'r ddaear i'n cynnal ac o ganlyniad y mae ein hinsawdd yn ansicr a'n byd yn anghyfiawn. Cynorthwya ni i wneud gwahaniaeth heddiw at fyw yfory.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Dduw, gweddïwn dros ein brodyr a'n chwirydd daearol: anifeiliaid, adar, pysgod, planhigion a thrychfilod ... Bydded i'w gostyngeddwydd a'u symlrwydd ein hysbrydoli i fyw yn ôl dy ewyllys di.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Ysbryd Duw, ysbrydola ein Heglwys i ddatblygu partneriaethau i weithredu gydag eraill ar y materion o bwys sy'n wynebu ein planed.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Gweddïwn dros weledyddion, artistiaid ac ysgrifenydd, am inni, trwy eu gwaith, weld y Cread o'r newydd.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Greawdwr Ysbryd, gweddïwn y bydd i'r Eglwys ailgysylltu â'th Gread ac ailddatgan ein traddodiadau beiblaidd a diwinyddol ac ysbrydol. Arwain ni i drawsffurfio ein bywydau ac arwain yr Eglwys i adlewyrchu dy ogoniant yn y Cread.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Ysbryd Duw, ti sy'n gosod dawnys y Cread; tyrd â bywyd o farwolaeth a threfn o anhrefn. Galw ni i wneud gwaith sylfaenol i ofalu am y cread oll ac i rannu adnoddau'n decach â phob bywyd.

O Dduw, clyw ein gweddi,

Dyro inni dy gariad at dy Gread oll.

Offeiriad/arweinydd

Gweddïwn: Greawdwr Dduw, cyffeswn fod y modd yr ydym yn defnyddio tanwydd ffosiledig a ffurfiau dinistriol eraill ar ynni heddiw yn difa'r coedwigoedd, yn newid yr hinsawdd a'r moroedd a'r pridd, a bioamrywiaeth a chydbwysedd bywyd ar ein planed fregus, ac yn dadfeddiannu'r tlodion a chenedlaethau'r dyfodol. Cynorthwya ni i ddewis bywyd i bopeth sydd mewn perygl – i gymdogion agos a phell ac i'r rhai a ddaw ar ein hôl. Dyro inni'r wybodaeth i ddysgu'r hyn na wyddom ond yr ydym yn hiraethu am gael ei ddeall, fel y gallwn anrhydeddu a meithrin popeth sy'n ein gwneud yn un â thi. Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd.

Amen